Mae CCUHP yn golygu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'n rhestr o hawliau sydd gan bob plentyn a pherson ifanc, ble bynnag yn y byd, ni waeth pwy ydyn nhw, ble maent yn byw na'r hyn maent yn credu ynddo.

Mae gan y CCUHP 54 erthygl ynddo, mae 42 yn hawliau i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed. Mae'r lleill yn ymwneud â sut y dylai llywodraethau ac oedolion gydweithio i wneud yn siŵr y gall plant a phobl ifanc ddefnyddio'u hawliau.

Hawliau Plant Cymru

Erthygl 1
Mae gan bob un dan 18 oed yr hawliau yma.

Erthygl 2
Mae'r confensiwn yn gymwys i bob un waeth beth.

Erthygl 3
Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Erthygl 4
Dylai'r llywodraeth sicrhau bod yr holl hawliau yma ar gael i bob plentyn.

Erthygl 5
Dylai llywodraethau helpu rhieni i'ch helpu chi i wybod am eich hawliau a'u defnyddio wrth i chi dyfu.

Erthygl 6
Mae gennych yr hawl i fywyd ac i dyfu i fod yn iach.

Erthygl 7
Eich hawl i enw a chenedligrwydd.

Erthygl 8
Dylai'r llywodraeth barchu eich hawl i enw, cenedligrwydd a theulu.

Erthygl 9
Eich hawl i fod gyda'ch rhieni os mae dyna sydd orau i chi.

Erthygl 10
Eich hawl i weld eich teulu os ydynt yn byw mewn gwlad arall.

Erthygl 11
I beidio â chael eich cymryd o'r wlad yn anghyfreithlon.

Erthygl 12
Eich hawl i ddweud beth ddylai digwydd ac i rywun wrando arnoch.

Erthygl 13
Eich hawl i gael gwybodaeth.

Erthygl 14
Eich hawl i ddilyn eich crefydd eich hun.

Erthygl 15
Eich hawl i gyfarfod â ffrindiau ac ymuno â grwpiau a chlybiau.

Erthygl 16
Eich hawl i breifatrwydd.

Erthygl 17
Eich hawl i wybodaeth onest yr ydych yn ei ddeall gan bapurau newydd a'r teledu.

Erthygl 18
Mae'r ddau riant yn rhannu'r cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent bob amser feddwl am yr hyn sydd orau ar gyfer bob plentyn.

Erthygl 19
Ni ddylech gael eich niweidio a dylech gael gofal a'ch cadw'n ddiogel.

Erthygl 20
Eich hawl i dderbyn gofal os nad ydych yn gallu byw â'ch teulu eich hun.

Erthygl 21
Eich hawl i fyw yn y lle sydd orau i chi os nad ydych yn gallu byw gyda'ch rhieni.

Erthygl 22
Mae gan blant sy'n ffoaduriaid yr un hawliau â phlant a aned yng Nghymru.

Erthygl 23
Eich hawl i ofal arbennig a chymorth os ydych yn anabl er mwyn i chi fyw bywyd llawn ac annibynnol.

Erthygl 24
Eich hawl i fwyd a dŵr da ac i weld y meddyg os ydych yn sâl.

Erthygl 25
Dylid mynd i weld plant nad ydynt yn byw gyda'u teuluoedd yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn iawn.

Erthygl 26
Yr hawl i arian ychwanegol os nad oes gen eich teulu ddigon o arian i fyw.

Erthygl 27
Eich hawl i safon dda o fwyd.

Erthygl 28
Eich hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol.

Erthygl 29
Eich hawl i fod y gorau gallwch fod.

Erthygl 30
Eich hawl i ddefnyddio eich iaith eich hun.

Erthygl 31
Eich hawl i ymlacio a chwarae.

Erthygl 32
Dylech gael eich diogelu rhag gwaith sy'n beryglus.

Erthygl 33
Dylech gael eich diogelu rhag cyffuriau peryglus.

Erthygl 34
Dylai'r llywodraeth ddiogelu plant rhag cam-drin rhywiol.

Erthygl 35
Mae gennych yr hawl i beidio cael eich gwerthu.

Erthygl 36
Dylech gael eich diogelu rhag gwneud pethau a allai beri newid i chi.

Erthygl 37
Eich hawl i gael eich trin yn deg.

Erthygl 38
Dylai plant gael eu diogelu yn ystod rhyfel ac ni ddylid eu caniatâu i ymladd yn y fyddin os o dan 15.

Erthygl 39
Dylai plant gael cymorth arbennig os ydynt wedi cael eu camdrin.

Erthygl 40
Mae gennych hawl i gymorth cyfreithiol os ydych wedi cael eich cyhuddo o dorri'r gyfraith.

Erthygl 41
Os yw cyfreithiau eich gwlad yn eich gwarchod yn well na'r hawliau ar y rhestr hon, dylai'r cyfreithiau hynny aros.

Erthygl 42
Rhaid i'r llywodraeth roi gwybod i blant a theuluoedd am hawliau plant